# Trefniadau ar gyfer Gwasanaethau Adsefydlu Strôc yn y Dyfodol

## Cwestiynau Cyffredin

**Pam y cafodd gwasanaethau adsefydlu strôc eu canoli yn 2023?**
Roedd y Bwrdd iechyd yn cael anawsterau mawr wrth geisio cynnal lefelau staffio diogel (yn enwedig staff meddygol) ar draws y tair uned adsefydlu yn Ysbyty Nevil Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Ystrad Fawr. Er mwyn sicrhau gwasanaethau cyson a diogel i gleifion, penderfynwyd gwneud newid brys a chanoli'r gwasanaeth adsefydlu strôc yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach.

**Beth yw'r trefniadau presennol?**
Mae pob rhan o wasanaeth adsefydlu strôc cleifion mewnol wedi'i leoli ar hyn o bryd yn Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach.

**Beth yw cynigion y Bwrdd Iechyd o ran sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei drefnu yn y dyfodol?**
Yn seiliedig ar y profiad o'r gwasanaeth wedi'i ganoli yn ystod y 18 mis diwethaf, credwn mai'r opsiwn hirdymor gorau yw gwneud y trefniadau dros dro yn barhaol a sefydlu 'canolfan ragoriaeth' adsefydlu strôc yn Ysbyty Ystrad Fawr.

**Pam bod y Bwrdd Iechyd yn cynnig hyn?**
Mae sawl rheswm pam ein bod yn meddwl mai hwn yw'r opsiwn gorau yn y dyfodol:

- Bydd yn sicrhau gwasanaeth diogel, o ansawdd uchel a chynaliadwy am flynyddoedd i ddod
- Mae tystiolaeth yn dangos ei fod yn fwy effeithlon, bod chyfathrebu'n symlach a bod ystod eang o sgiliau i gyd mewn un lle
- Mae wedi gwella lefelau staffio ac wedi darparu mwy o orgyffwrdd er mwyn ymateb i gyfnodau o absenoldebau ac ati

**Sut bydd hyn yn effeithio arnaf os bydd angen triniaeth adsefydlu arnaf?**
Os ydych chi'n ddigon anffodus i gael strôc a bod angen eich derbyn i'r ysbyty ar gyfer gofal acíwt ar unwaith, byddwch yn cael eich asesu i ddeall eich anghenion

adsefydlu. Os oes angen adsefydlu arbenigol arnoch mewn lleoliad ysbyty, byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r uned newydd yn Ysbyty Ystrad Fawr ar gyfer eich cyfnod adsefydlu a'ch therapi, er mwyn sicrhau adferiad gorau posibl ar ôl eich strôc. Nid oes angen adsefydlu ar bob claf mewn lleoliad ysbyty, felly efallai y cewch eich atgyfeirio at y Gwasanaeth Niwro-Adsefydlu Cymunedol am gymorth gartref, neu gael eich rhyddhau adref yn annibynnol.

**A wnaiff y Bwrdd Iechyd gefnogi teuluoedd gyda threfniadau trafnidiaeth i ymweld â'u hanwyliaid?**

Rydym yn llwyr sylweddoli y gall dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn ymweld â pherthnasau fod yn anodd. Mae trafodaethau rheolaidd gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u trefnu, er mwyn adolygu'r trefniadau cyfredol ac i weld ble y gellir gwella llwybrau, amlder gwasanaeth ac ati.

Mae cyngor a chymorth ychwanegol hefyd ar gael gan y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS): https://bipab.gig.cymru/ffeiliau/patient-advice-liaison-service-pals/pals-leaflet-v1-2-welsh-pdf/